

## **Partneriaeth Arloesi Ewrop yng Nghymru (EIP Wales)**

## **Astudiaeth Ddichonoldeb ar Gynhyrchu Serennyn yng Ngogledd Cymru**

### **Diweddariad ar y Prosiect**

Kevin Stephens, Fedwlydan  
Gari Jones, Fron Bella  
Thomas Hughes, Ynysgair Fawr  
Robert Evans, Lleuar Fawr  
Aled Morris, Marian Mawr  
Bryn Shand (Euroganics Ltd)  
Radek Brangaca (Prifysgol Bangor)  
Elaine Rees Jones (AgriPlan Cymru)

Gwanwyn 2019

## **Cynnwys:**

1. Cefndir y Prosiect
2. Safleoedd y Treialon
3. Y Bwlb
4. Gofynion Plannu
5. Monitro Parhaus
6. Symud Ymlaen

## 1. Cefndir y Prosiect


Perlysiuyn lluosflwydd yw'r serennyn gwyn (*Drimia maritima*) ac mae'n tarddu o ardal y Môr Canoldir, gorllewin Asia a gogledd Affrica. O dyfu'r planhigyn o dan yr amgylchiadau cywir, mae bwlb y planhigyn yn cynnwys cyfansoddyn sy'n cael ei ddefnyddio mewn llawer o fathau o surop i atal peswch.

Mae'r prosiect hwn yn treialu sut mae sêr yn tyfu ar raddfa fach ar nifer o ffermydd ar draws y Gogledd.

Nod y prosiect yw canfod gofynion y planhigyn, gan gynnwys agronomeg, sut i'w gynaeafu, technegau at dynnu'r cyfansoddyn a chostau cynhyrchu. Bydd ymchwil yn cael ei gwneud hefyd ar y galw am y cynnyrch a pha mor ymarferol yw hi i'w gynhyrchu yng Nghymru.

Os bydd y canlyniadau'n gadarnhaol, fe allai tyfu sêr fod yn opsiwn arloesol i fusnesau amaethyddol a thirfeddianwyr yng Nghymru o safbwynt arallgyfeirio.

## 2. Safleoedd y treialon



Map yn dangos lleoliad y chwe safle treialu

Mae chwe safle treialu wedi'u sefydlu ar draws y Gogledd. Mae gan bob un wahanol dir, uchder, pH, glawiad a phellter o'r glannau.

Mae adborth wedi'i roi i'r ffermwyr unigol a bydd adborth yn cael ei roi ar lefel grŵp pan fyddwn yn cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau.

### 3. Y Bwlb

Cafwyd hyd i'r bylbiau drwy dîm ymchwil Prifysgol Bangor. Cawsant eu casglu ym mis Mai 2018 a'u plannu'n fuan wedyn.



Roedd maint y bylbiau'n amrywio'n fawr.




Cafodd y bylbiau eu ddoli i saith bocs, gan sicrhau bod bylbiau o amryw o feintiau ym mhob un.

Cafodd chwe bocs eu pwyso a'u plannu. Anfonwyd un bocs i'r ddadansoddi at BioExtractions Wales Ltd. Roedd hyn yn fodd inni ganfod priodweddau'r bylbiau er mwyn meincnodi'r twf a'r newidiadau o'u cymharu â'r cnwd a'r bylbiau a fyddai'n cael eu cynaeafu.

#### 4. Gofynion Plannu

Ar ôl llawer o drafod gydag aelodau'r grŵp a Charlie Morgan, penderfynwyd bod y lleiniau i gael eu plannu fel isod:



Er mwyn sicrhau dilyniant, aethon ni ati i gyflogi swyddog maes i blannu pob safle a'u monitro'n gyson.

Roedd y llain reoli yn gweithredu fel rhwystr rhwng y ddwy lain arall. Cafodd samplau pridd eu cymryd hefyd cyn plannu a chaiff rhagor o samplau eu codi o'r llain reoli ac o'r llain sydd wedi'i phlannu adeg y cynhaeaf, er mwyn meincnodi unrhyw newid.

Cyngor Prifysgol Bangor oedd na ddylid defnyddio gwrrtaith ar hyn o bryd.

Cafodd y llain las ei thrin cyn ei phlannu ond yn y llain binc cafodd twll bach ei agor i blannu'r bwlb ynddo.



Cafodd y lleiniau eu gwahanu oddi wrth weddill y cae drwy godi ffensys atal cwningod.

Bu'r cyfnod ar ôl plannu'n sych iawn ond wrth i'r haf basio bu'n rhaid chwynnu pob safle. Mae gwaith cynnal, fel chwynnu, yn cael ei wneud yn ystod pob ymweliad monitro.

## 5. Monitro Parhaus

Hyd yn hyn mae'r safleoedd wedi'u monitro bedair gwaith – Mehefin, Awst a Rhagfyr 2018 a Mawrth 2019.

Mae cofnodion a lluniau o'r gwaith monitro wedi'i crynhoi.

Mae heriau wedi bod yn sgil adar gwyllt sydd wedi ymosod ar y bylbiau oddi uchod, ac felly ar rai o'r safleoedd mae gwifrau atal cwningod wedi'u gosod dros ardal y treial i geisio atal hyn rhag digwydd eto.

Mae'r aildyfu wedi'i gofnodi a rhagwelir y bydd y bylbiau'n cael eu cynaeafu yn ystod mis Mehefin / dechrau Gorffennaf.



Blagur newydd yn fuan ar ôl plannu



Llun agos o'r bwlb



Bwlb serennyn yn blodeuo

## **6. Symud Ymlaen**

Rhagwelir y caiff y planhigion eu cynaeafu ym mis Mehefin pryd y caiff y bylbiau i gyd eu dadwreiddio a'u hanfon i labordy BioExtractions Wales Ltd.

Caiff cynnyrch yr holl safleoedd ei fesur drwy gofnodi'r cynnydd yn y pwysau a biomas y bwlb.

Bydd gwaith i samplu a dadansoddi'r pridd o bob un o'r tair llain yn cael ei wneud adeg cynaeafu ar bob un o'r safleoedd.

Caiff yr amrediad o gyfansoddion fferyllol o'r llwyth cyntaf o fylbiau ei nodi a bydd y cynnydd/gostyngiad mewn unrhyw newid yn cael ei feincnodi.

Rhagwelir y caiff tua 40% o'r bylbiau eu cadw i'w hailblannu ar y safleoedd gorau er mwyn monitro'r rhain ymhellach.